Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Adroddiad 02-18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Gorffennaf 2018

www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@assembly.wales**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Adroddiad 02-18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Gorffennaf 2018

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar 28 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 22. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ymchwilio i gwynion a gyfeiriwyd ato gan y Comisiynydd Safonau;
- ystyried unrhyw faterion o egwyddor yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau;
- sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion;
- a threfnu Cofrestr Buddiannau'r Aelodau a chofnodion cyhoeddus perthnasol eraill a oedd yn ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog.

## Cadeirydd y Pwyllgor:

**Jayne Bryant AC**
Llafur Cymru
Gorllewin Casnewydd

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:

**Gareth Bennett AC**
UKIP Cymru
Canol De Cymru

**Paul Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Preseli Sir Benfro

**Llyr Gruffydd AC**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 5**

**2. Ystyried y gŵyn ..... 6**

Y broses o drafod penderfyniad y Pwyllgor ..... 7

Argymhelliad y Pwyllgor ..... 7

Materion yn codi o'r Gŵyn hon ..... 8

**Atodiad A: Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau ..... 9**

# Argymhelliad

**Argymhelliad 1.** Penderfyniad unfrydol y Pwyllgor yw y dylid argymell i'r Cynulliad, yn unol â pharagraff 7.12(v) o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad, fod methiant i gydymffurfio wedi'i ganfod ac y dylid cosbi'r Aelod o dan Reol Sefydlog 22.10. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Aelod gael ei gwahardd o drafodion y Cynulliad am gyfnod o bedwar diwrnod calendr ar ddeg, gan ddechrau ar ddiwrnod cyntaf tymor y Cynulliad ar ôl toriad yr haf (17 Medi 2018).....Tudalen 8

# 1. Cyflwyniad

**1.** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) yn Rheol Sefydlog 22.[1] Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, rhaid i'r Pwyllgor:

> "mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau ...ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi."[2]

**2.** Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.1 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad[3] (y Weithdrefn) ac mae'n ymwneud â chŵyn yn erbyn Rhianon Passmore AC.

**3.** Mae adroddiad y Comisiynydd Safonau (y Comisiynydd) ar ei ymchwiliad i'r gŵyn wedi'i atodi yn Atodiad A. Mae'n nodi manylion am y gŵyn a chanfyddiadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd.

**4.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am y gŵyn a'r hyn a ystyriodd y Pwyllgor wrth lunio ei argymhelliad.

[1] Rheolau Sefydlog

[2] Rheol Sefydlog 22.2(i)

[3] Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad

# 2. Ystyried y gŵyn

**5.** Roedd y gŵyn yn honni bod yr Aelod dan sylw wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 4b o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, sy'n dweud:

> "Uniondeb: Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus roi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.
>
> Dylai Aelodau'r Cynulliad bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal ac yn cryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei Aelodau'n gyffredinol."[4]

**6.** Cyfeiriodd yr Aelod ei hun at y Comisiynydd Safonau ar 6 Mawrth 2018 i ddweud ei bod wedi ei chael yn euog o drosedd o fethu â darparu sampl o anadl i gael ei dadansoddi, ac roedd yn derbyn bod yr euogfarn yn golygu ei bod yn torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

**7.** Yn yr achos hwn, ar 23 Medi 2017, methodd Rhianon Passmore AC â darparu sampl o anadl i'w dadansoddi pan ofynnodd swyddog o'r heddlu iddi wneud hynny. Ar 12 Chwefror 2018, plediodd Rhianon Passmore AC yn euog a chafodd ei barnu'n euog o'r drosedd.

**8.** Roedd y Comisiynydd Safonau yn fodlon bod comisiynu'r drosedd o fethu â darparu sampl o anadl i'w dadansoddi a'r euogfarn ddilynol yn ymddygiad sy'n torri paragraff 4b o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

**9.** Yn ei datganiad ysgrifenedig, dywedodd yr Aelod dan sylw ei bod yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ac yn benodol y gofyniad i gydymffurfio â pharagraff 4b o'r Cod. Dywedodd yr Aelod:

> " I deeply regret that I have breached the Code in this way, and wish to offer my sincere apologies for doing so."[5]

**10.** Cyfarfu'r Pwyllgor ddydd Mawrth 26 Mehefin 2018 i drafod adroddiad y Comisiynydd. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod adroddiad y Comisiynydd yn cynnwys digon o wybodaeth i fod yn sail i'w drafodaethau, ac nad oedd angen ceisio rhagor o dystiolaeth ysgrifenedig neu lafar.

[4] Cod ymddygiad

[5] Datganiad Rhianon Passmore AC, 16 Mehefin 2018

**11.** Cyfarfu'r Pwyllgor unwaith eto ddydd Mawrth 3 Gorffennaf 2018 er mwyn cytuno ar ei adroddiad ynghylch y gŵyn hon.

## Y broses o drafod penderfyniad y Pwyllgor

**12.** Bu'r Pwyllgor yn trafod a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.2(i).[6]

**13.** Wrth ystyried p'un a dorrwyd y rheol ai peidio, adolygodd y Pwyllgor y wybodaeth yn adroddiad y Comisiynydd, yn ogystal â barn y Comisiynydd fod rheol wedi'i thorri.

**14.** Nododd y Pwyllgor fod yr Aelod dan sylw yn llwyr gydnabod bod ei gweithredoedd yn torri'r cod ymddygiad a'i bod wedi cydweithredu'n llawn ag ymchwiliad y Comisiynydd. Nododd y Pwyllgor fod yr Aelod wedi cyfeirio ei hun at y Comisiynydd.

Ar ôl adolygu adroddiad y Comisiynydd Safonau, mae'r Pwyllgor o'r farn bod amodau'r Cod Ymddygiad wedi'u torri gan Rhianon Passmore AC, mewn cysylltiad â dwyn gwarth ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Argymhelliad y Pwyllgor

**15.** Mae achos o dorri'r cod gan unrhyw Aelod Cynulliad yn fater difrifol ym marn y Pwyllgor. Mae enw da Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a ffydd a hyder y cyhoedd yn y sefydliad, yn dibynnu ar allu'r Aelodau i ddangos uniondeb ac arweiniad yn eu gweithredoedd.

**16.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod yr Aelod wedi ymddiheuro'n llawn yn ei datganiad ysgrifenedig i'r Comisiynydd. Nododd y Pwyllgor hefyd bod yr Aelod wedi cyfeirio ei hun at y Comisiynydd yn brydlon yn dilyn yr euogfarn.

**17.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod euogfarn droseddol am fethu â darparu sampl o anadl yn achos difrifol o dorri'r Cod Ymddygiad, sy'n llawer is na'r safonau a ddisgwylir gan Aelod Cynulliad.

**18.** Wrth ddod i'w gasgliad ar ba gosb i'w argymell, trafododd y Pwyllgor yr ystyriaethau a amlinellwyd ym mharagraff 7.13 o'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad.

**19.** Credwn y dylai achos o dorri rheolau o'r fath arwain at waharddiad o 21 diwrnod o drafodion y Cynulliad. Fodd bynnag, gan fod yr Aelod wedi dangos ei bod yn edifar am ei gweithredoedd drwy gyfeirio ei hun a thrwy gydweithredu â'r Comisiynydd Safonau, cynigiwn y dylid lleihau hynny i 14 diwrnod.

[6] Rheol Sefydlog 22.2(i)

**Argymhelliad 1.** Penderfyniad unfrydol y Pwyllgor yw y dylid argymell i'r Cynulliad, yn unol â pharagraff 7.12(v) o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad, fod methiant i gydymffurfio wedi'i ganfod ac y dylid cosbi'r Aelod o dan Reol Sefydlog 22.10. Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Aelod gael ei gwahardd o drafodion y Cynulliad am gyfnod o bedwar diwrnod calendr ar ddeg, gan ddechrau ar ddiwrnod cyntaf tymor y Cynulliad ar ôl toriad yr haf (17 Medi 2018).

**20.** Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod dan sylw, a chafodd wybod hefyd am ei hawl i apelio o dan adran 8 o'r Weithdrefn.[7]

**21.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi cyflwyno cynnig (yn unol â Rheol Sefydlog 22.11 a pharagraff 9.1 o'r Weithdrefn) yn galw ar y Cynulliad i gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor.

## Materion yn codi o'r Gŵyn hon

**22.** Dyma'r achos cyntaf lle y cyfeiriodd Aelod ei hun at y Comisiynydd Safonau annibynnol. Mae hwn yn arfer y mae'r Pwyllgor yn ei groesawu gan fod hynny'n dangos yn glir bod yr Aelod yn cydnabod ei bod yn ymwybodol o'r gofynion yn y Cod Ymddygiad ac yn dangos bwriad i wneud yn iawn am dorri'r Cod.

[7] Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad

# Atodiad A: Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau

Gan: Syr Roderick Evans, y Comisiynydd Safonau

At: Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

ADRODDIAD AR YMCHWILIAD FFURFIOL

Rhianon Passmore AC

Y gŵyn

1. Ar 6 Mawrth 2018, ysgrifennodd Rhianon Passmore AC ataf yn gofyn i mi gynnal ymchwiliad yn sgil cael ei barnu'n euog ar 12 Chwefror 2018 yn Llys Ynadon Gwent o drosedd o fethu â darparu sampl o anadl i gael ei dadansoddi o dan y weithdrefn anadliedydd. Plediodd yn euog i'r cyhuddiad a chafodd ddirwy o £1,000, gosodwyd gordal o £100 i ddioddefwyr ac fe'i gorchmynnwyd i dalu costau o £620. Cafodd Mrs Passmore hefyd ei gwahardd rhag gyrru am gyfnod o 20 mis. Cafodd dogfennau yn cadarnhau'r euogfarn a'r cosbau hyn eu cynnwys gyda llythyr Mrs Passmore.

2. Penderfynais drin y cyfeiriad hwn fel cwyn bod Mrs Passmore wedi torri paragraff 4b o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n darllen:

> "Dylai Aelodau'r Cynulliad bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal a chryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei Aelodau'n gyffredinol."

O roi ystyriaeth gychwynnol i'r mater, ymddengys fod digon o dystiolaeth i awgrymu y gallai ymddygiad cydnabyddedig yr Aelod gyfateb i ymddygiad sy'n torri'r Cod. Roeddwn yn fodlon bod gofynion paragraff 3.1 (i)-(vi) o'r Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad wedi'u bodloni a bod y gŵyn yn dderbyniadwy. Yn unol â hynny, symudais ymlaen at y cam ymchwilio ffurfiol.

Yr Ymchwiliad

3. Ar 13 Mawrth 2018, cyfwelais â Mrs Passmore er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y drosedd a'r amgylchiadau a arweiniodd at ei chyflawni. Cadarnhaodd y manylion a nodir ym mharagraff 1 uchod a dywedodd wrthyf fod y drosedd wedi digwydd yn gynnar ddydd Sadwrn 23 Medi 2017.

4. Dywedodd Mrs Passmore wrthyf ei bod wedi gadael y Cynulliad am tua 7.00 o'r gloch y nos Wener cyn hynny. Gadawodd ei char ym maes parcio'r Cynulliad ac aeth i mewn i Gaerdydd i gyfarfod â ffrind, Cafodd bryd o fwyd gyda hi a dau neu, o bosib, dri gwydraid o win. Ar ddiwedd y noson aeth yn ôl i'r Cynulliad i gasglu ei char, gan ei bod hi'n teithio yn ddiweddarach y noson honno i westy a drefnwyd ac a dalwyd amdano ymlaen llaw yn Lloegr. Ar y ffordd i'w char, cafodd bwl difrifol o asthma a phan gyrhaeddodd ei char, cymerodd ddos uchel o'r feddyginiaeth prednisone ar ffurf tabledi sydd bob amser ganddi rhag ofn y caiff bwl difrifol a sydyn o asthma. Penderfynodd yrru i dŷ ei mam ond torrodd ei char yn Llaneirwg. Tynnodd i mewn i gilfan a ffoniodd yr AA. Tra'n aros i'r AA gyrraedd, cyrhaeddodd yr heddlu. Gofynnodd yr heddlu i Mrs Passmore roi sampl o anadl; ceisiodd roi sampl ond methodd â gwneud hynny. Cafodd ei harestio a'i chymryd i'r orsaf heddlu lle gofynnwyd iddi roi sampl o'i anadl i'w dadansoddi. Unwaith eto, ceisiodd roi sampl ond methodd â gwneud hynny. Hwn oedd sail y cyhuddiad y plediodd yn euog iddo.

Y ffeithiau a ganfuwyd gan y Comisiynydd

5. Ar 23 Medi 2017, methodd Mrs Passmore â darparu sampl o anadl i'w dadansoddi pan ofynnodd yr heddlu iddi wneud hynny.

6. Ar 12 Chwefror 2018, plediodd Mrs Passmore yn euog a chafodd ei barnu'n euog o'r drosedd o fethu â darparu sampl o anadl i'w dadansoddi.

Casgliad

7. Rwy'n fodlon bod comisiynu'r drosedd o fethu â darparu sampl o anadl i'w dadansoddi gan Aelod o'r Cynulliad a'r euogfarn ddilynol yn ymddygiad sy'n torri paragraff 4b y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a bod achos Mrs Passmore, felly, yn cael ei basio i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ddelio ag ef o dan Reol Sefydlog 22.2.

8. Yn fy marn i, nid yw'r gŵyn hon, ohono'i hun, yn codi unrhyw faterion newydd o egwyddor gyffredinol.

Gofynion o dan y Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion

9. Rwy'n cadarnhau bod yr Aelod dan sylw wedi cael drafft o'm adroddiad terfynol ac wedi cael y cyfle i wneud sylwadau ar unrhyw anghywirdeb ffeithiol. Nid yw wedi codi unrhyw faterion.

Atodiadau

10. Rwy'n atodi:
    (i) Gorchymyn hysbysu ynghylch dirwy a'i chasglu
    (ii) Datganiad Rhianon Passmore AC



Syr Roderick Evans

15 Mehefin 2018

Gwent Magistrates Court
Code 3211
Financial Enquiries: Central Finance Office, Harbourside Road, Port Talbot. SA13 1SB
Tel: 01633 645112 Fax: 0870 324 0281, Mon-Fri 9am-5pm
24/7 Credit/Debit Card Payments: 0300 790 9901 www.gov.uk/pay-court-fine-online

Ms RHIANNON PASSMORE
[redacted]

Division: 089
Account number: [redacted]
Case number: [redacted]
Born: [redacted]

# Notice of fine and collection order

## Offences and penalties

| Date | Offences and Impositions | | Amount £ |
|---|---|---|---|
| 12 Feb 2018 | 1 / Fail to provide specimen for analysis - vehicle driver. | Fine | 1,000.00 |
| | | Victim Sur | 100.00 |
| | | Costs | 620.00 |
| You must pay: **£100.00 per month** commencing **1 March 2018** | | Total: £ | **1,720.00** |

PAID in full.

The court has made a **Collection Order** to collect the sum due.

**See reverse for details on how to pay. Failure to pay as ordered will make you liable for further enforcement action, unless you pay the full balance immediately.** This could include:

- Deductions from your earnings
- Deductions from your benefit
- A warrant of control being issued to the enforcement agents to take control of your goods (which will incur additional costs)
- Warrant for your arrest to return you to court
- Increasing your fine by 50%
- Clamping, removal and sale of your vehicle
- Registering the account in the Register of Judgements, Orders and Fines (affecting your ability to obtain credit)
- If after these sanctions have been imposed, your fine remains outstanding, the court may order that you are imprisoned for non-payment.

If you have difficulties in paying the amount you must immediately contact the Enforcement Team on the number above.

All enquiries regarding this notice should be made to the above address.

**Stephen Whale Clerk to the Justices**

ate: 12 February 2018

***Justices' Clerk***

Statement of Rhianon Passmore AM:

1. I am the Assembly Member for the Islwyn constituency elected in May 2016.

2. I acknowledge that I am aware of the Code of Conduct for Assembly Members and in particular of the requirement to comply with paragraph 4b of the Code which reads:

> "Assembly Members should at all times conduct themselves in a manner which will tend to maintain and strengthen the public's trust and confidence in the integrity of the Assembly and refrain from any action which would bring the Assembly, or its Members generally, into disrepute."

3. On 12th February 2018, I pleaded guilty at the Newport Magistrates' Court to an offence of failing to provide a specimen for analysis under the breathalyser procedure. The offence took place on 23rd September 2017. I was ordered to pay a total of £1720.00 made up of a fine of £1000, a Victim Surcharge of £100 and costs of £620. I have paid the total sum in full. I was also disqualified from driving for a period of twenty months although the court agreed to shorten this period by twenty two weeks if I satisfactorily complete an approved course by 12 March 2019.

4. On 6th March 2018, I wrote to the Commissioner for Standards to report to him the fact that I had been convicted as set out above as I accept that the conviction constitutes a breach of the Code of Conduct for Assembly Members. I deeply regret that I have breached the code in this way and wish to offer my sincere apologies for doing so.

5. The offence took place early on Saturday 23rd September 2017. On the previous Friday evening, I left the Assembly about 7.00 o'clock. I left my car in the Assembly car park took a taxi into Cardiff to attend a pre-arranged meeting with a friend. We talked about some important issues and consumed a meal and possibly two or three glasses of wine. I made my way back to the Assembly to collect my car but on the way I suffered an asthma attack. I suffer from chronic and acute asthmatic exacerbations and on reaching my car I took emergency medication which I carry with me. I immediately took my emergency prednisolone tablet medication for acute asthma episodes as I was very short of breath. (I have emergency medication additional to inhalers to treat my chronic asthmatic exacerbations which are life threatening). I am authorised to carry an emergency steroid prednisone pack for acute episodes. As a chronic asthmatic I carry a tablet form of steroid emergency medication and carry a steroid 'licence' which lists my medication for medical professionals when episodic. This is necessary because of the sudden and potentially fatal nature of my condition. I decided to drive to my mother's house but in St Mellon's my car broke down. I pulled into a lay-by and phoned the AA. The car would not start and this was verified by the independent garage. While I waited for the arrival of the AA, the police arrived. The police asked me to give a sample of breath; I tried but was unable to do so. I was arrested and taken to the police station where I was asked to provide a sample of breath for analysis. Again I tried but was unable to do so. This was the basis of the charge to which I pleaded guilty.

6. I do not know why I was unable to provide a sample of my breath. I did not intentionally fail to do so and it may be that my asthmatic condition was a contributory factor to my failure. During the process I was very distressed and this was exacerbated because despite my condition I could not access my medication. When my asthma medication was eventually offered I was prevented from taking the required and necessary dose. I believe this and the fear of my condition being left untreated and in addition to being in shock after the attack strongly contributed to being unable to provide a sample as required. I was later taken by ambulance to hospital A doctor was called to the police station to examine me because of my condition and the doctor gave me oxygen and summoned an ambulance which took me from the police station to hospital. On the way to hospital I was put on a post medication drip. I was detained in hospital until the Saturday afternoon.

7. Whatever the cause of my failure, I want to repeat and emphasise my apology for this breach of the Code of Conduct.

Signed:

Dated: 15/6/18.